# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 27ain Ionawr, 2026 at 2.00 pm**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| Cynghorydd Sir Alistair Neill, (Chair)<br>Cynghorydd Sir Rachel Buckler, (Vice Chair)<br><br>Cynghorwyr Sir: Jill Bond, Steven Garratt, Meirion Howells, Martin Newell, Paul Pavia, Peter Strong, and Su McConnel<br><br>C. Werrett | |

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd John Crook

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

   Gwnaeth y Cynghorydd McConnel ddatganiad o fuddiant heb fod yn rhagfarnol fel aelod o'r Panel Gwahardd yn Ysgol Brenin Harri VIII.

2. **Diweddariad Gwaharddiadau Ysgolion - Craffu ar y ffigurau diweddaraf a pherfformiad y Cyngor. Adroddiad i ddilyn.**

   Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dr Morwenna Wagstaff ac atebodd gwestiynau aelodau gyda Hugo Hutchison, Kelly Waythe a Rachael Roach-Rooke:

   Pam y bu cymaint o gynnydd yn nifer y gwaharddiadau a'r dyddiau a gollwyd, a sut mae hyn yn cymharu â Chymru, y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang? Faint sydd yn ddisgyblion a gafodd eu gwahardd fwy nag unwaith a beth sy'n digwydd i'r disgyblion hynny?

   Caiff y cynnydd ei briodoli i ymddygiad mwy heriol yn dilyn y pandemig, gyda thueddiadau cenedlaethol yn dangos cynnydd tebyg. Caiff y disgyblion a gaiff eu gwahardd fwy nag unwaith eu holrhain, ac mae'r rhan fwyaf o waharddiadau yn rhai tymor byr. Mae pob gwaharddiad yn benderfyniad unigryw ac nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu gwahardd fwy nag unwaith. Mae cefnogaeth yn cynnwys cyfarfodydd adferol a chynlluniau aml-asiantaeth i atal ail-ddigwydd.

   Sut y caiff gwaharddiadau parhaol eu diddymu, beth yw'r broses a beth sy'n digwydd i'r plant hynny?

   Caiff gwaharddiadau parhaol eu diddymu drwy gydweithio rhwng yr ysgol, yr awdurdod lleol a'r teulu, yn aml drwy greu pecyn cymorth, symudiadau wedi'u rheoli i ysgolion eraill neu ymyriad drwy'r gwasanaeth cyfeirio disgyblion. Seilir y broses ar gytundeb a chymorth wedi ei deilwra ar gyfer y plentyn.

A oes cyfle am gefnogaeth fwy rhagweithiol i helpu pobl ifanc i feithrin cydnerthedd ac atal gwaharddiadau, tu hwnt i ddulliau gyda ffocws ar staff?

Cydnabu'r cyfarfod bwysigrwydd strategaethau rhagweithiol ac ataliol gyda dysgu proffesiynol parhaus ar gyfer staff ac ymwreiddio arferion ystyriol o drawma. Mae pwyslais ar feithrin capasiti mewn ysgolion a chefnogaeth aml-asiantaeth, gydag effeithiau cadarnhaol yn dechrau dangos, yn arbennig mewn lleoliadau cynradd.

Beth sy'n digwydd i ddisgyblion yn ystod ac ar ôl gwaharddiad; yn benodol, pa gefnogaeth a roddir i atal gwaharddiadau mwy nag unwaith ac a ellid gwneud mwy i gynorthwyo ysgolion yn y maes hwn?

Mae'r broses yn cynnwys cyfathrebu gyda theuluoedd, cyfarfodydd adferol ac ymgyfraniad aml-asiantaeth i gefnogi ailintegreiddio a gostwng ailadrodd gwaharddiadau. Dylid tanlinellu nad yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aildroseddu a chaiff gwaharddiadau mewnol hefyd eu defnyddio fel mesur ataliol.

Beth yw arwyddocâd nifer y gwaharddiadau (gan nodi y caiff 5% o ddisgyblion eu gwahardd, gyda chyfartaledd o tua pedwar eithriad fesul disgybl a gaiff ei eithrio) ac a yw'r trywydd cyfredol yn gynaliadwy? A oes angen mwy o weithredu/gweithredu gwahanol?

Mae gwahardd yn digwydd pan nad oes dewis arall, ond mae weithiau angen hynny ar gyfer diogelwch; mae'r niferoedd wedi codi oherwydd newidiadau mewn cymdeithas ond mae data diweddar yn awgrymu efallai y gall fod gwastatau. Mae data tymor yr hydref yn dangos gostyngiad mewn gwaharddiadau ac mae gwaharddiadau cynradd yn aml wedi crynhoi ymysg grŵp bach o ddisgyblion gydag anghenion cymhleth.

A allwch egluro'r broses a'r rhesymeg dros ddiddymu gwaharddiadau parhaol a beth sy'n disgwyl i ddisgyblion yn yr achosion hyn?

Mae diddymu gwaharddiadau parhaol yn golygu cydweithio rhwng yr awdurdod lleol, ysgol a'r teulu i ddatblygu pecynnau cymorth amgen tebyg i symudiadau wedi'u rheoli neu ymyriadau gwasanaeth cyfeirio disgyblion, gan anelu am ailintegreiddio a thryloywder mewn adroddiadau. Gall penaethiaid ysgolion sôn am enghreifftiau o symudiadau wedi'u rheoli llwyddiannus ac yn dangos pwysigrwydd ymddiriedaeth a dialog rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol.

A oes cymorth neu becynnau penodol i helpu disgyblion a gafodd eu gwahardd rhag dychwelyd gyda dull gweithredu gwahanol ac a fedrir gwneud mwy i gefnogi ysgolion gyda hyn?

Caiff cymorth ei deilwra i ddisgyblion unigol yn aml yn cynnwys cydweithio gyda'r awdurdod lleol i gael mynediad i gyllid ac adnoddau ychwanegol. Mae enghreifftiau lle mae pecynnau pwrpasol wedi arwain at ymyriadau sylweddol mewn gwaharddiadau ar gyfer disgyblion penodol. Mae'r rhwydwaith cynhwysiant a chydweithio aml-asiantaeth yn allweddol i roi cymorth effeithlon.

Pa ymyriadau penodol sy'n gweithio orau i ostwng gwaharddiadau rhag ailddigwydd a cholli dyddiau (e.e. uned cyfeirio disgyblion, ymyriad cynnar, symudiadau wedi'u rheoli, hyfforddiant ystyriol o drawma, rhwydwaith cynhwysiant)?

Mae ymyriadau effeithlon yn cynnwys cydweithio aml-asiantaeth, symudiadau wedi'u rheoli, hyfforddiant ystyriol o drawma a'r rhwydwaith cynhwysiant sy'n galluogi rhannu adnoddau a chymorth proffesiynol. Nid oes unrhyw un ymyriad yn effeithlon bob amser; mae llwyddiant yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Sonnir am symudiadau wedi'u rheoli, hyfforddiant ystyriol o drawma a'r rhwydwaith cynhwysiant fel bod yn werthfawr, gyda chydweithio aml-asiantaeth a phecynnau cymorth pwrpasol yn aml yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol.

Pa uwchgyfeirio ffurfiol sy'n digwydd lle mae arferion gwahardd yn gwahaniaethu rhwng ysgolion a sut y caiff gwaharddiadau anghymesur mewn rhai ysgolion ei drin?

Mae'r awdurdod lleol yn monitro data gwaharddiadau ac yn herio ysgolion sydd â nifer uchel neu gynyddol o waharddiadau. Mae uwchgyfeirio ffurfiol yn cynnwys cyfarfodydd gyda phenaethiaid ysgol, uwch arweinwyr a llywodraethwyr ac ymchwilio strategaethau dysgu a chymorth proffesiynol. Disgwylir amrywiad rhwng ysgolion oherwydd gwahanol amgylchiadau a byddai penaethiaid ysgolion hefyd yn rhybuddio rhag barnu ysgolion yn llwyr ar nifer gwaharddiadau.

Pa mor gynnar mae strategaethau atal yn dechrau mewn ysgolion cynradd a sut y caiff problemau eu dynodi cyn iddynt gynyddu?

Mae atal mewn ysgolion cynradd yn cynnwys monitro cynnar ar batrymau gwahardd, darparu pecynnau cymorth a chyfarfodydd ailintegreiddio aml-asiantaeth. Pwysleisir dysgu proffesiynol a meithrin capasiti ar gyfer staff i drin ymddygiad heriol cyn iddo waethygu a sefydlwyd y tîm mewn ymateb i alw cynyddol am gymorth cynnar.

Sut mae mynd i'r afael ag ymddieithrio cynyddol gan rieni ac amlder ffonau clyfar ymysg plant ifanc?

Mae ysgolion yn gweithio i feithrin perthynas gyda rhieni drwy gyfathrebu uniongyrchol, rhannu disgwyliadau a chymorth cymunedol. Mae ysgolion Sir Fynwy wedi mabwysiadu polisi yn cynghori rhieni i beidio rhoi ffonau clyfar i blant tan Flwyddyn 10, gydag adborth cadarnhaol gan deuluoedd. Mae ysgolion yn anelu i osod disgwyliadau clir ar gyfer cyfrifoldeb rhieni ac yn cyfeirio at wasanaethau cymorth. – GWEITHREDU: darparu adroddiad i aelodau ar ddefnydd ffonau clyfar ymysg disgyblion.

Beth am hyfforddiant ymwybodol o drawma?

Mae ysgolion a'r awdurdod lleol yn defnyddio dull gweithredu ystyriol o drawma at waharddiadau, gan gydnabod y gall y broses wahardd ei hun achosi gofid i ddisgyblion a theuluoedd. Mae staff a gafodd eu hyfforddi mewn ymarfer ymwybodol o drawma yn canolbwyntio ar ymateb yn sensitif i ddigwyddiadau, rhoi lle canolog i lais y plentyn a rhoi cynlluniau dilynol clir ar waith gyda rhieni ac mewn ysgolion cynradd a'r awdurdod lleol. Mae ysgolion yn anelu i ostwng pryder drwy wella cyfathrebu, gan sicrhau fod plant yn aros mewn cysylltiad â dysgu ac yn cynnig gwiriadau llesiant yn ystod gwaharddiadau. Yn gyffredinol, mae'r dull gweithredu yn anelu i leihau trawma ychwanegol a chefnogi disgyblion i ddychwelyd yn gadarnhaol, gan ostwng y tebygrwydd o waharddiadau rhag ailddigwydd.

Pam nad yw'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r rhesymau dros waharddiad ac a all adroddiadau'r dyfodol gynnwys mwy o fanylion ar fathau o droseddau ac ymgyfraniad rhieni?

Cydnabuwyd y gwall a chytunwyd y dylai adroddiadau'r dyfodol gynnwys mwy o fanylion am y rhesymau dros waharddiad ac ymgyfraniad rhieni.

Beth sy'n digwydd i blentyn yn ystod cyfnod gwahardd arferol, yn cynnwys goruchwyliaeth, cefnogaeth a diogelu?

Eu rhieni sy'n gyfrifol am blant a gafodd eu gwahardd yn ystod y cyfnod gwahardd; anfonir gwaith i'r cartref ac mae'r awdurdod lleol yn cadw cyfathrebu ar gyfer ailintegreiddio a chefnogaeth. Mae ysgolion yn sicrhau y caiff rhieni eu hysbysu ar y ffôn cyn llythyrau ffurfiol ac

ni wneir gwaharddiadau os oes pryderon am ddiogelu am i'r plentyn fod gartref. Defnyddir gwaharddiadau mewnol neu drefniadau eraill os oes angen.

Beth yw effaith toriadau mewn cyllidebau ysgolion ar waharddiadau, yn benodol a yw gostyngiadau mewn staff cymorth wedi arwain at fwy o waharddiadau, yn arbennig mewn ysgolion cynradd?

Cydnabyddir fod pwysau ar gyllidebau a llai o staff cymorth yn debyg o effeithio ar y gallu i gadw trefn ar ymddygiad heriol, gan ei gwneud yn anos i roi cymorth ataliol a pherthynol, er nad chafodd unrhyw gydberthynas uniongyrchol ei meintioli. Mae ysgolion Sir Fynwy yn addasu mewn modd creadigol, gan ddefnyddio dysgu proffesiynol a defnydd hyblyg o staff a chafodd cyllid newydd ei ailgyfeirio at ysgolion uwchradd ar gyfer cymorth wedi ei dargedu at ddisgyblion mewn risg.

A yw'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion disgyblion sydd mewn risg o ymddieithriad a gwahardd neu a yw'n gosod anhyblygrwydd newydd tebyg i'r hen gwricwlwm cenedlaethol?

Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig cyfleoedd i deilwra dysgu i ddiddordebau a galluoedd unigol ond bydd angen buddsoddiad ac amser i'w weithredu'n llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion ddylunio llwybrau amrywiol, yn cynnwys opsiynau academaidd a galwedigaethol, a all ailgysylltu myfyrwyr a chefnogi cynhwysiant, cyn belled â bod ysgolion yn gwneud y penderfyniadau cywir. – GWEITHREDU: gwahodd penaethiaid ysgolion maes o law i drafod effaith y cwricwlwm newydd.

Beth yw pwysigrwydd codio cyson ar gyfer rhesymau gwahardd ar draws ysgolion, sut mae penaethiaid ysgolion yn sicrhau cywirdeb a sut mae llywodraethwyr yn craffu gwaharddiadau a dyddiau a gollir?

Caiff rhesymau dros wahardd eu codio a'u cyfathrebu'n glir gyda chyrff llywodraethu yn craffu'n rheolaidd ar ddata ar waharddiadau, tueddiadau a mesurau cefnogi drwy bwyllgorau llesiant a thrafodaethau proffesiynol gyda'r awdurdod lleol.

A oes pwysau ar gapasiti swyddogion yr awdurdod lleol oherwydd y galw cynyddol am dasgau cefnogi ac a gafodd achos busnes ei wneud ar gyfer adnoddau ychwanegol?

Mae capasiti swyddogion yn wir dan bwysau a chyflwynwyd cais yn y gyllideb ar gyfer cynyddu capasiti, gyda systemau cadarn yn eu lle ar gyfer monitro gwaharddiadau a symudiadau wedi'u rheoli.

Sut y caiff symudiadau wedi'u rheoli rhwng awdurdodau lleol eu monitro i sicrhau ailintegreiddio llwyddiannus a'r effaith leiaf ar yr ysgol y mae'r disgyblion a waharddwyd yn symud iddynt?

Caiff symudiadau wedi'u rheoli eu monitro drwy baneli cynhwysiant a chyfarfodydd adolygu a gall symud ar draws ffiniau sir fod yn heriol ond caiff cynnydd ei wneud ar y cyd ag awdurdodau eraill.

Yn ogystal â chraffu effaith y cwricwlwm newydd, a fedrwn hefyd graffu sut y caiff myfyrwyr o Gymru sy'n dymuno mynd i brifysgol yn Lloegr eu rheoli? – GWEITHREDU (BLAENGYNLLUN GWAITH)

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion ac yn arbennig benaethiaid ysgolion am fynychu heddiw a mynegodd ddiolch yr aelodau i'r timau am eu gwaith caled. Yn ychwanegol, soniodd y Cadeirydd am bwysigrwydd adroddiad diweddaraf Estyn ar waharddiadau o ysgolion ac ymchwil ar iechyd ysgolion, gan nodi ei fod yn adroddiad cryf sy'n adlewyrchiad cadarnhaol o waith y cyngor ac y dylai preswylwyr ei gydnabod a'i ddathlu. Llongyfarchodd dîm addysg y cyngor gan nodi hefyd fod gwaith yn dal i fod i'w wneud i wella deiliannau o gymharu â siroedd eraill.

3. **<u>Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion - Hysbysu'r pwyllgor am y data a'r mewnwelediadau o waith y rhwydwaith dan arweiniad Prifysgol Caerdydd mewn perthynas â lles disgyblion.</u>**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Emma Taylor a roddodd gyflwyniad ac ateb cwestiynau aelodau.

Beth yw hyd a lled ymgyfraniad aml-asiantaeth, yn benodol rôl cwnsela a seico-addysg ar gyfer disgyblion, ac a yw pobl ifanc yn derbyn cymorth rhagweithiol i ddeall a rheoleiddio emosiynau cyn i broblemau gynyddu?

Mae cwnsela ar gael ym mhob ysgol uwchradd ac mae therapi chwarae ar gael mewn ysgolion cynradd ar sail anghenion, ond mae'r gwasanaeth yn rhan o Ofal Cymdeithasol, nid Addysg. Caiff cymorth aml-asiantaeth (yn cynnwys seicoleg addysgol a'r tîm cymorth addysg) ei ddarparu fel sydd angen ar gyfer disgyblion a gafodd eu gwahardd. – GWEITHREDU: darparu ymateb gan Gofal Cymdeithasol.

Sut y caiff arfer gorau (tebyg i gynlluniau cydnerthedd a rheoleiddio emosiynol) ei rannu a'i weithredu rhwng corfforol?

Caiff arfer gorau mewn meysydd tebyg i gydnerthedd a rheoleiddio emosiynol ei rannu'n bennaf drwy Fforwm Llesiant mewn Ysgolion yr awdurdod lleol, lle mae ysgolion a'r awdurdod lleol ar y cyd yn dynodi camau gweithredu a chyfnewid enghreifftiau o ddulliau gweithredu effeithlon. Yn ychwanegol, mae grwpiau arwain llesiant seiliedig ar glwstwr yn galluogi ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn pob clwstwr i rannu dulliau, cynlluniau a phrofiad ymarferol. Pan fo plentyn angen cymorth ychwanegol - fel yn dilyn gwaharddiad – caiff arfer aml-asiantaeth ei weithredu ar sail unigol, yn cynnwys opsiynau fel cwnsela mewn ysgolion, y Tîm Cymorth Addysg a Seicoleg Addysgol. Mae'r asiantaethau hyn yn cydweithio i ddynodi unrhyw ymyriadau penodol y gall y plentyn fod eu hangen i brosesu anawsterau a datblygu strategaethau ymdopi iachach, gyda'r nod o atal problemau yn y dyfodol gydag ymddygiad.

Pam na wnaeth pob un o'r 30 ysgol gynradd gymryd rhan yn yr arolwg a pham na chafodd Unedau Cyfeirio Disgyblion eu cynnwys?

Eglurwyd y gwnaeth 28 ysgol gynradd gymryd rhan (gan gywiro'r ffigur o 27 yn yr adroddiad); o'r ddwy ysgol na chymerodd ran, nid oedd un yn gymwys oherwydd mai dim ond disgyblion cyfnod sylfaen oedd ganddi ac nid oedd gan un ganiatâd digonol gan deuluoedd. Ar hyn o bryd mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn rhan o gynllun peilot i brofi addasrwydd arolwg.

A yw staff addysgu wedi cael hyfforddiant digonol i gyflwyno addysg ar iechyd meddwl a chydnerthedd? A oes risg bosibl y caiff straeniau arferol eu cyfrif fel rhai patholegol?

Yn gynyddol mae gan ysgolion uwchradd adrannau arbenigol a staff sy'n derbyn dysgu proffesiynol ychwanegol i addysgu'r pynciau hyn, gydag adnoddau wedi eu hysgrifennu'n dda ar gael a chynlluniau newydd yn cael eu monitro'n barhaus i sicrhau effaith gadarnhaol. Mae monitro a gwerthuso yn ganolog pan mae ysgolion yn cyflwyno prosesau newydd a chyflenwi heb fod yn arbenigol (ee. yn ystod amser tiwtor) yn cael ei drin drwy ddulliau gweithredu mwy arbenigol.

A yw ffocws yr adroddiadau ar broses neu ddeilliannau?

Dim ond un ffynhonnell o wybodaeth yw'r set data llesiant a chaiff ei defnyddio'n bennaf i roi darlun eang o ethos, tueddiadau a darpariaeth ysgol. Mae gan ysgolion ddata arall, mwy manwl sy'n olrhain disgyblion unigol felly dylid gweld yr adroddiad hwn fel set ehangach o ddulliau yn hytrach na'r unig fesur o ddeilliannau.

Pa strwythur neu gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer disgyblion a gafodd eu gwahardd a disgyblion mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion?

Caiff disgyblion Unedau Cyfeirio Disgyblion eu cynnwys o fewn yr un disgwyliadau â phob ysgol ym Maes Dysgu Iechyd a Llesiant y cwricwlwm newydd. Mae staff yr Unedau hefyd yn addysgu'r cwricwlwm hwn ac yn casglu data llais disgyblion yn yr un modd ag ysgolion prif ffrwd. Felly nid yw'r system yn absennol ond mae'n ffurfio rhan o'r datblygiad proffesiynol parhaus a chasglu data ar draws ysgolion a'r Unedau.

Beth mae'n ei olygu y gellir yn awr gynnwys y disgyblion hyn ac a yw'r strwythur yn glir?

Mae eu cynhwysiant yn cyfeirio at ddefnyddio'r un ffynonellau data di-enw y gellir eu cymharu ar draws pob lleoliad – yn cynnwys yr Unedau Cyfeirio Disgyblion – fel y gall yr awdurdod lleol ddynodi themâu ar lefel ysgol, clwstwr a sir. Mae'r set ddata yma yn rhoi darlun lefel uchel yn hytrach nag olrhain unigol, gan gynnig cysondeb yn y ffordd y caiff gwybodaeth ei monitro.

A gaiff materion fel anawsterau cwsg eu hymchwilio yn cynnwys ffactorau tebyg i weithgaredd corfforol?

Caiff themâu llesiant (yn cynnwys y rhai a gafodd eu codi yn yr arolwg tebyg i gwsg) eu dynodi drwy ddata ac yna eu hymchwilio gan ysgolion a'r awdurdod lleol. Dangosodd arolygon cynharach nad oedd disgyblion yn gwybod sut i gael mynediad i gymorth llesiant, gan ysgogi ysgolion i gryfhau cyfeirio a chysylltiadau cymunedol, gan ddangos fod problemau llesiant a ddynodwyd yn arwain at weithredu wedi ei dargedu.

Beth yw nod cyffredinol y gwaith hwn ac a ydym yn rhoi blaenoriaeth i ddatrys problemau yn hytrach na phroses?

Y nod yw adeiladu darlun tueddiadau dibynadwy a hirdymor i lywio gweithredu gan ysgolion a'r awdurdod lleol. Mae swyddogion yn tanlinellu fod angen bod yn bwyllog am ddod i gasgliadau o ddim ond un neu ddwy flynedd o data, gan y gall anomaleddau ddigwydd, ond dros amser mae'r set data yn helpu i ddynodi problemau - tebyg i driwantiaeth neu bwysau ar ysgolion – ar gyfer eu hymchwilio ymhellach. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio tystiolaeth hannog i ddynodi a thrin anghenion real yn hytrach na dibynnu ar broses yn unig.

A fedrid defnyddio'r set data ar draws y cwricwlwm yn cynnwys dadansoddi myfyrwyr a pherchnogaeth cynlluniau gwella iechyd?

Mae ysgolion yn defnyddio'r data mewn gweithgareddau cwricwlwm ac yn olrhain tueddiadau dros gyfnod, gydag ysgolion uwchradd yn medru monitro gwelliannau yn defnyddio eu data hanesyddol.

A yw'r arolwg yn ystyried y gallai myfyrwyr roi atebion sy'n gymdeithasol ddymunol yn hytrach na atebion onest?

Cydnabyddir y pryder am onestrwydd ymatebion, gan y gallai rhai dysgwyr roi'r atebion y credant sy'n cael eu disgwyl yn arbennig ar bynciau llesiant gwrthrychol, felly mae hwn yn sylw teg.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch i'r swyddogion am eu data a'u hamser ac ymatebion heddiw.

4. **Busnes Ychwanegol: Asesiad Risg Strategol - Hysbysu aelodau am risgiau'r awdurdod, ac i'r pwyllgor ystyried unrhyw feysydd i'w craffu ymhellach.**

   Cwestiynau gan aelodau i gael eu derbyn drwy e-bost a'u trosglwyddo i swyddogion perthnasol ar gyfer ymateb. – **GWEITHREDU**

5. **Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 10 Chwefror 2026 am 10.00am.**

The meeting ended at **4.46 pm**